O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2012 Rhif 423 (Cy. 67)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Twnnel Pen-y-clip, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Dros Dro) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *17 Chwefror 2012* |
| *Yn dod i rym* | *26 Chwefror 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A55 (Caer i Fangor) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i/neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 26 Chwefror 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Twnnel Pen-y-clip, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Dros Dro) 2012.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sydd wedi arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod o ddim mwy na 14 o ddiwrnodau sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar bob un o'r dyddiadau a bennir yn Atodlen 7 i'r Gorchymyn hwn;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" (*"the lengths of the trunk road"*) yw'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn;

ystyr "marciau ymyl y gerbytffordd" *("edge of the carriageway markings")* yw'r marciau a ddangosir yn y diagramau rhifau 1002.1 a 1009 yn Rheoliadau Arwyddion Traffig a Chyfarwyddiadau Cyffredinol 2002**(3)**;

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd ac eithrio cerbyd esempt gael ei yrru, ar na cherbytffordd tua'r dwyrain na cherbytffordd tua'r gorllewin y darn o gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**4.**—(1) Tra gwaherddir cerbydau, gan erthygl 3, rhag teithio ar y gerbytffordd tua'r dwyrain, ond tra na waherddir hwy, yn unol ag erthygl 8, rhag teithio ar y gerbytffordd tua'r gorllewin, ni chaiff neb yrru i beri neu i ganiatáu i unrhyw gerbyd:

(a) teithio ar lôn allanol y gerbytffordd tua'r gorllewin mewn unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r dwyrain;

(b) teithio mewn unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r dwyrain drwy'r bylchau yn llain ganol y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 5 i'r Gorchymyn hwn.

(2) Tra gwaherddir cerbydau, gan erthygl 3, rhag teithio ar y gerbytffordd tua'r gorllewin, ond tra na waherddir hwy, yn unol ag erthygl 8, rhag teithio ar y gerbytffordd tua'r dwyrain, ni chaiff neb yrru i beri neu i ganiatáu i unrhyw gerbyd:

(a) teithio ar lôn allanol y gerbytffordd tua'r dwyrain mewn unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r gorllewin;

(b) defnyddio cerbyd, neu ganiatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio, fel y bo'n goddiweddyd unrhyw gerbyd arall yng ngherbytffordd tua'r dwyrain y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn;

(c) teithio mewn unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r gorllewin drwy'r bylchau yn llain ganol y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 5 i'r Gorchymyn hwn.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ac eithrio cerbyd esempt, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd ac eithrio cerbyd esempt gael ei yrru, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 3 a 4 i'r Gorchymyn hwn.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn.

**7.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd sy'n 3.2 o fetrau o led neu'n lletach, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd sy'n 3.2 o fetrau o led neu'n lletach fynd, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 6 i'r Gorchymyn hwn.

**8.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a'r cyfyngiad y maent yn cyfeirio atynt ar waith.

**9.** Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd (yr A55) (Rhan Pen-y-clip, Gwynedd) (Traffig Un Ffordd) 1994**(4)** yn cael eu hatal drwy hyn, i'r graddau y maent yn ymwneud â lôn allanol cerbytffordd tua'r dwyrain y darn o gefnffordd a bennir yn Atodlen 1, yn ystod yr adegau hynny y mae'r gerbytffordd tua'r gorllewin ar gau yn unol ag erthygl 3.

**10.** Drwy hyn, mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Rhan Pen-y-clip, Gwynedd) (Codi Cyfyngiadau) 1994**(5)** yn cael eu hatal mewn cysylltiad â'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn yn ystod yr adegau y mae'r cyfyngiadau a bennir yn erthygl 6 yn weithredol.

**11.** Drwy hyn, mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Penmaen-mawr – Morfa Conwy, Conwy) (Codi Cyfyngiadau) 2004**(6)**yn cael eu hatal mewn cysylltiad â'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn yn ystod yr adegau y mae'r cyfyngiadau a bennir yn erthygl 6 yn weithredol.

**12.** Drwy hyn, mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd (yr A55) (Llanfairfechan, Gwynedd) (Codi Cyfyngiadau) Order 1989**(7)** yn cael eu hatal mewn cysylltiad â'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn yn ystod yr adegau y mae'r cyfyngiadau a bennir yn erthygl 6 yn weithredol.

**13.** Drwy hyn, mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd (yr A55) (Penmaen-mawr, Gwynedd) (Codi Cyfyngiadau) 1989**(8)** yn cael eu hatal mewn cysylltiad â'r darnau o gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn yn ystod yr adegau y mae'r cyfyngiadau a bennir yn erthygl 6 yn weithredol.

**14.** Drwy hyn, mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Abergwyngregyn, Gwynedd) (Codi Cyfyngiadau) 1994**(9)** yn cael eu hatal mewn cysylltiad â’r darnau o gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i’r Gorchymyn hwn yn ystod yr adegau y mae’r cyfyngiadau a bennir yn erthygl 6 yn weithredol.

**15.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 17 Chwefror 2012

***G MORGAN***
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilweith
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
**(3)** O.S. 2002/3113
**(4)** O.S 1994/192
**(5)** O.S. 1994/790
**(6)** O.S. 2004/2876 (Cy.247)
**(7)** O.S. 1989/2158
**(8)** O.S. 1989/1958
**(9)** O.S. 1994/3087

## YR ATODLENNI

Darnau o Gefnffordd ym Mhen -y-clip ym Mwrdeistref Sirol Conwy

### ATODLEN 1
### Terfynau'r gwrthlif

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 97 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 15, cylchfan Llanfairfechan, i bwynt 208 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt trosbont Traphont Red Gables.

### ATODLEN 2
### Terfynau'r cyfyngiad dim goddiweddyd

Y darn hwnnw o gerbytffordd y penrhyn, sef y gerbytffordd tua'r dwyrain, sy'n ymestyn o bwynt 97 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 15, cylchfan Llanfairfechan, i bwynt 208 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt trosbont Traphont Red Gables.

### ATODLEN 3
### Cau Cyffordd Gorllewin Penmaen-mawr

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r ffordd wledig a elwir Ffordd Bangor i farciau ymyl y gerbytffordd ar ochr ddeheuol prif gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd.

### ATODLEN 4
### Gwahardd pob cerbyd pan fydd y ffordd ar gau a therfyn cyflymder o 40 mya

1. Y darn hwnnw o'r gerbytffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o bwynt 100 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 16, Cylchfan Puffin, i ganolbwynt ynys hollt y slipffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 13, pentref Abergwyngregyn, gan gynnwys y slipffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 14, Cyfnewidfa Madryn, y slipffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 15a a'r bylchau yn y llain ganol a bennir yn Atodlen 5.

2. Y darn hwnnw o'r gerbytffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o bwynt 100 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 16, Cylchfan Puffin, i ganolbwynt trosbont Cyffordd 14, Cyfnewidfa Madryn, gan gynnwys y bylchau yn y llain ganol a bennir yn Atodlen 5.

## ATODLEN 5
## Terfynau'r bylchau yn y llain ganol

1. Y bwlch yn y llain ganol a leolir rhwng pwynt 78 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt trosbont Traphont Red Gables a phwynt 208 o fetrau i'r dwyrain o'r bont honno.

2. Y bwlch yn y llain ganol a leolir rhwng pwynt 97 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 15, Cylchfan Llanfairfechan, i bwynt 226 o fetrau i'r dwyrain o'r canolbwynt hwnnw.

## ATODLEN 6
## Terfynau ar led cerbydau

1. Y darn hwnnw o'r gerbytffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o bwynt 25 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 15, Cylchfan Llanfairfechan, i ben draw'r trwyn lle y mae'r slipffordd ymuno tua'r dwyrain yn uno â phrif gerbytffordd yr A55 wrth Gyffordd 18, Cyfnewidfa Cyffordd Llandudno.

2. Y darn hwnnw o'r gerbytffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o ddechrau'r trwyn lle y mae'r slipffordd ymadael tua'r gorllewin yn ymwahanu oddi wrth prif gerbytffordd yr A55 wrth Gyffordd 18, Cyfnewidfa Cyffordd Llandudno, i bwynt 25 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 15, Cylchfan Llanfairfechan, gan gynnwys y slipffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 18.

## ATODLEN 7
## Dyddiadau

Dydd Sul 26 Chwefror 2012
Dydd Sul 10 Mehefin 2012
Dydd Sul 16 Medi 2012
Dydd Sul 2 Rhagfyr 2012